Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

**At:**

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub
Clercod Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

25 Chwefror 2021

Annwyl Gydweithiwr

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2021/2022**

Amgaeir Adroddiad Blynyddol terfynol 2021/2022 a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill. Diolch i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r Adroddiad drafft a gyhoeddwyd fis Medi y llynedd. Mae'r Panel wedi ystyried y safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd ac wedi rhoi sylw iddynt wrth ddod i'r casgliadau a adlewyrchir yn yr Adroddiad.

Mae'r Panel wedi cadarnhau'r cynnydd yng nghyflogau aelodau etholedig prif gynghorau, gyda chynnydd canlyniadol i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r Adroddiad drafft. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol cynghorau cymuned a chynghorau tref. Fodd bynnag, bydd y Panel yn cynnal adolygiad o'r fframwaith cydnabyddiaeth cyfredol ar

gyfer y sector hwn a chaiff unrhyw newidiadau eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol drafft nesaf.

Hoffwn atgoffa'r holl awdurdodau perthnasol hefyd o'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel, yn enwedig cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (Atodiad 3) a Chyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol (Atodiad 4). Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr awdurdodau nad ydynt wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Yn gywir



John Bader

Cadeirydd